OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1014 (Cy. 70)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU
# PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Mawrth 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *31 Mawrth 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 26(1) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

(**1**) 1947 p. 41. Diddymwyd adran 26 gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Mae is-adrannau (1) i (5) o adran 26 yn parhau i gael effaith o ran Cymru at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno, sef Cynllun Pensiwn y Dynion Tân, ac a nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2918 (Cy. 257)). Newidiwyd enw'r Cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) gan erthygl 4 o'r offeryn hwnnw.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau yn ddiweddarach i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).